

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22: Dogfen Ganllaw ar yr Holiadur

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif resymau dros ofyn y cwestiynau sy'n cael eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol 2021-22. Rhestrir y cwestiynau yn ôl enw'r newidyn yn yr un drefn ag y maent yn ymddangos yn yr holiadur. Nodir "Craidd" wrth ymyl cwestiynau sy'n cael eu cynnwys bob blwyddyn fel rhai safonol, yn enwedig at ddibenion croesddadansoddi. Nodir "CD" wrth ymyl y rhai a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cadarnhau'r cyfeiriad	5
Dewis Person	5
Dechrau'r cyfweiliad: Gweinyddol	5
Dechrau'r cyfweiliad: Gweinyddol	5
Dechrau'r cyfweiliad: Gweinyddol	6
Dechrau'r cyfweiliad: Rhyw, Oedran	6
Dechrau'r cyfweiliad: Addysg amser llawn	6
Dechrau'r cyfweiliad: Statws priodasol	7
Dechrau'r cyfweiliad: Grid cydberthnasau'r aelwyd	7
Dechrau'r cyfweiliad: Cydsyniad rhiant/gwarcheidwad am bobl ifanc 16 a 17 oed	7
Dechrau'r cyfweiliad: Statws gwarcheidwad cyfreithiol	7
Hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd a chrefydd (Craidd)	8
Y Gymraeg (Craidd)	9
Deiliadaeth (Craidd)	10
Awdurdodau lleol	11
Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau	11
Democratiaeth a dealltwriaeth o gynghorau lleol	12

Cydlyniant cymunedol	12
Diogelwch cymunedol	13
Peryglon - Sŵn.....	13
Ansawdd yr amgylchedd lleol	14
Newid yn yr hinsawdd - safbwyntiau	15
Anifeiliaid anwes	16
Statws economaidd a chymwysterau (Craidd).....	16
Statws economaidd a chymwysterau (Craidd): Car	17
Cyflogadwyedd a chymorth.....	17
Addysg ôl-orfodol a hyfforddiant	18
Defnydd o'r rhyngrwyd	19
Sgiliau'r rhyngrwydd.....	19
Gwirfoddoli	20
Credyd cynhwysol	20
Amddifadedd materol aelwydydd: rhai nad ydynt yn cynnwys pensiynwyr (Craidd, CD).....	21
amddifadedd materol aelwydydd – pensiynwyr (Craidd, CD)	22
Tlodi bwyd	23
Ysgolion cynradd	24
Ysgolion uwchradd.....	25
Dyheadau addysgol	26
Gweithgarwch corfforol plant	26
Hawliau plant	26
Cwestiynau ynglŷn â demograffeg iechyd (Craidd)	27
Yn feichiog	27

BMI (CD)	27
Salwch hirdymor (Craidd)	28
Deiet (CD)	31
Alcohol (CD).....	32
Smygu a'r defnydd o e-sigaréts (CD).....	33
Gweithgarwch corfforol (CD).....	33
Teithio llesol	34
Chwaraeon Cymru – Lefelau cyfranogi presennol a galw cudd (CD).....	34
Llesiant (Craidd, ONS4).....	35
Unigedd (CD)	37
Gwasanaethau meddygon teulu	38
Apwyntiadau ysbyty	39
Apwyntiadau deintyddol	40
Nam ar y clyw	40
Gofal llygaid	40
Gofal llygaid: Cymorth.....	41
Bodddhad gyda gwasanaethau iechyd	41
Bodddhad gyda'r system addysg	42
Bodddhad gyda Llywodraeth Cymru	42
CCC - Mynychu.....	43
CCC - Cyfranogi.....	44
CCC – Digwyddiadau celfyddydol yn y Gymraeg	45
CCC – Rhwystrau	45
CCC – Agweddau tuag at y celfyddydau a diwylliant.....	45

Ailgysylltu (Craidd)	46
Ailgysylltu (Craidd): Llinellau cymorth	46
Gwybodaeth wirio i gyfwelwyr (Craidd)	46
Dechrau'r arolwg ar-lein	47
Gwasanaethau a chyfleusterau lleol	47
Newid yn yr hinsawdd - Ymddygiadau	47
Atgyweirio ac ailddefnyddio	48
Gwirfoddoli	48
Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS).....	49
Cosbi plant yn gorfforol	50
Gamblo	52
Dinasyddiaeth fyd-eang	52
Diwedd yr arolwg ar-lein	53
Adborth	53

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Cadarnhau'r cyfeiriad	AddrChk EndInt Addr1 Addr2 Addr3 District Posttow PostCode	Cadarnhau bod manylion cyfeiriad yn gywir.	
Dewis Person	NxtBday NxtBdayNt NxtKnownBday NameCho PleaseSpeak	Nodi'r person sydd â'r pen-blwydd nesaf ac enw'r person hwnnw.	
Dechrau'r cyfweiliad: Gweinyddol	LangInt LangIntOT OtherLang OtherLang1 OtherLang2	Cadarnhau ym mha iaith y mae'r ymatebydd am gael ei gyfweld.	
Dechrau'r cyfweiliad: Gweinyddol	C4	Cadarnhau nifer y bobl sy'n byw ar yr aelwyd er mwyn ein helpu i ddeall cyfansoddiad aelwydydd. Defnyddir hyn hefyd i bennu'r llwybr drwy gwestiynau diweddarach yr arolwg. Mae pennu'r llwybr yn ffordd o deilwra'r holiadur at nodweddion pob ymatebydd a lleihau nifer y cwestiynau a ofynnir i bob ymatebydd er mwyn lleihau'r baich i'r eithaf.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Dechrau'r cyfweiliad: Gweinyddol	QBNames1-16	Cofnodi enw pob aelod o'r aelwyd er mwyn llenwi testun ar gyfer cwestiynau diweddarach. Mae llenwi testun yn golygu y caiff cwestiynau eu haddasu'n awtomatig i adlewyrchu atebion ymatebwyr, felly er enghraifft gall y cwestiwn gynnwys ei enw lle y bo'n briodol.	
Dechrau'r cyfweiliad: Rhyw, Oedran	Sex DteofBth Agelf	Casglu gwybodaeth am ryw a dyddiad geni/oedran ar y pen-blwydd diwethaf i bob aelod o'r aelwyd. Mae hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall cyfansoddiad aelwydydd ac yn ei galluogi i ddadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan bobl mewn bandiau oedran gwahanol farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Defnyddir y cwestiynau hefyd i bennu llwybr at gwestiynau diweddarach yn yr arolwg Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion nac aelwydydd mewn unrhyw ffordd.	
Dechrau'r cyfweiliad: Addysg amser llawn	HH4_6FtEd HH16_19FtEd	Cadarnhau a yw pob aelod o'r aelwyd 4-6 oed neu 16-19 oed mewn addysg amser llawn er mwyn pennu pa lwybr y dylai ymatebwyr ei ddilyn at gwestiynau penodol.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Dechrau'r cyfweiliad: Statws priodasol	MarStat MarChk LivWith12	Cadarnhau statws cyfreithiol pob aelod o'r aelwyd 16 oed o ran priodas neu bartneriaeth sifil gofrestredig, neu a yw'n cyd-fyw ag aelod arall o'r aelwyd. Mae hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall cyfansoddiad aelwydydd ac yn ei galluogi i ddadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl. Mae hefyd yn helpu i 'lenwi testun' mewn cwestiynau diweddarach sy'n holi am yr ymatebydd, yr ymatebydd a'i bartner, neu'r aelwyd gyfan.	
Dechrau'r cyfweiliad: Grid cydberthnasau'r aelwyd	RelResp	Cadarnhau sut mae pob aelod o'r aelwyd yn perthyn i aelodau eraill o'r aelwyd. Defnyddir hyn i bennu'r llwybr at gwestiynau/adranau diweddarach yn yr arolwg (e.e. cwestiynau am blant dibynnol).	
Dechrau'r cyfweiliad: Cydsyniad rhiant/gwarcheidwad am bobl ifanc 16 a 17 oed	C5b C5c PGName PGRel PGOT	Cael cydsyniad rhiant/gwarcheidwad lle mae'r ymatebydd a ddewiswyd yn 16 neu'n 17 oed ac yn byw gyda rhiant/gwarcheidwad.	
Dechrau'r cyfweiliad: Statws gwarcheidwad cyfreithiol	GrdChk	Cadarnhau a yw'r ymatebydd yn warcheidwad cyfreithiol i unrhyw un o'r plant ar yr aelwyd, lle nad yw statws rhiant/gwarcheidwad yn glir o'r grid cydberthnasau'r aelwyd. Mae hyn yn helpu i bennu'r llwybr at gwestiynau diweddarach yn yr arolwg sydd ond yn cael eu gofyn i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n byw ar yr aelwyd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd a chrefydd (Craidd)	FullName NatId NatIdOT EthMain EthWh EthWhOT EthMx EthMxOT EthAs EthAsOT EthBI EthBIOT EthOthOT Religion ReligionOT	Cadarnhau hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd a chrefydd yr ymatebydd. Drwy hyn bydd modd dadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan grwpiau gwahanol o bobl farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Mae'r cwestiynau ynglŷn ag ethnigrwydd wedi cael eu rhannu'n brif categorïau ac yn is-gategorïau gan mai dyma'r ffordd a argymhellir wrth holi dros y ffôn. Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Y Gymraeg (Craidd)	WelUndSpk WelSpk WelRead WelWrite WelAbSpk WelFrqSpk WelSpkHh WelAbSpkHh WelFrqSpkHh	Mae gan Lywodraeth Cymru darged o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nod yr adran hon yw holi am allu'r ymatebydd i siarad Cymraeg, ei ruglder a pha mor aml y mae'n defnyddio'r iaith. Mae'r cwestiynau yn rhoi mwy o fanylion nag sydd ar gael o ffynonellau eraill (e.e. y cyfrifiad). Drwyddynt, bydd modd hefyd ddadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan siaradwyr Cymraeg farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd. Mae cwestiwn ynglŷn â gallu yn y Gymraeg ac amllder i aelodau eraill yr aelwyd 3 oed ac yn hŷn wedi cael ei ychwanegu at y modiwl hwn ar gyfer 2021-22. Gofynnir y cwestiynau hyn am bob aelod o'r aelwyd er mwyn casglu gwybodaeth fanwl ym mlwyddyn y cyfrifiad fel y gallwn archwilio unrhyw wahaniaethau rhwng yr Arolwg Cenedlaethol a'r Cyfrifiad. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro cynnydd yn y dyfodol, yn enwedig os nad oes unrhyw Gyfrifiad.	Dim ond i'r rhai a atebodd 'Ydw' i WelSpk/WelSpkHh y gofynnir WelAbSpk/WelAbSpkHh, WelFrqSpk/WelFrqSpkHh.

Deiliadaeth (Craidd)	Tenure HowOwn ResTme	Cadarnhau deiliadaeth gyfreithiol ffurfiol llety'r ymatebydd (e.e. perchen-feddiannaeth, rhentu). Mae'r cwestiwn hwn wedi'i gynnwys i sicrhau bod modd gwneud gwaith dadansoddi ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan bobl â statws deiliadaeth gwahanol farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd. Mae ResTim yn holi am faint o amser y mae'r ymatebydd wedi byw yn y cyfeiriad, a ddefnyddir i gynnwys neu beidio â chynnwys cwestiynau ynglŷn â'r eiddo.	Mae cynlluniau anarferol yn cynnwys: Cyfberchnogaeth - ystyr cyfberchnogaeth yw cyd-berchen ar eiddo preswyl (e.e. blociau o fflatiau) gan grŵp o bobl sydd wedi ffurfio cymdeithas cyfberchenogaeth gofrestredig. Dechreuodd y cynlluniau hyn yn y 1970au ond pasiwyd deddfwriaeth newydd yn y 1980au felly ni ddylai'r cynlluniau hyn fod mewn bodolaeth erbyn hyn. Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai - sy'n cael eu sefydlu gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn dal i fod yn berchen ar yr eiddo sy'n cael ei rentu. Dylid ei godio fel rhentu oddi wrth y cyngor lleol (cod 2). Tai cydweithredol - Dylid ei godio fel rhentu oddi wrth Gymdeithas Dai (cod 3). Cynlluniau Incwm Cartref a Chynlluniau Cartref Ymddeol – lle mae perchenogion â meddiant llwyr yn codi benthygiad ar sicrhad y tŷ er mwyn cael incwm rheolaidd. Fe'i gelwir hefyd yn rhyddhau ecwiti. Dylid ei godio fel perchenogion â meddiant llwyr (cod 1). Prydlesu yn y Sector Preifat – Mae'r cyngor yn prydlesu eiddo preifat am sawl blwyddyn ac yn ei osod i denantiaid. Dylid ei godio fel rhentu oddi wrth y cyngor lleol (cod 2). Meddiant - Os yw banc wedi meddiannu tŷ fel sicrhad dros fusnes, dylid ei godio fel 1 os oedd y preswlydd yn berchen yn
----------------------	----------------------------	--	--

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
			llwyr arno neu 2 os oedd y preswlydd yn ei brynu drwy forgais neu fenthyciad. Cynllun Rhent i Forgais – mae cynlluniau ar gael i denantiaid tai cyngor lle mae gan denant yr hawl i brynu cyfran yn ei dŷ am tua'r un taliad misol â'r rhent fwy neu lai. Dylid ei godio fel cyd-berchenogion; y landlord yw'r 'awdurdod lleol'. Cynlluniau ar gyfer diffygdalwyr morgeisi - Yn yr achosion hyn, mae'r eiddo yn dychwelyd i'r benthyciwr a chaiff rhent ei dalu yn lle morgais. Dylid ei godio fel rhentu (cod 4).
Awdurdodau lleol	LAPrtOpp UaInfDecs	Bydd y canlyniadau yn ein helpu i ddeall effeithiau cyfreithiau newydd a pha grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru sy'n ymgysylltu fwyaf / leiaf â gwleidyddiaeth leol a phrosesau gwneud penderfyniadau, ac a oes angen cymryd camau i ymgysylltu'n well â'r grwpiau sy'n ymgysylltu leiaf.	
Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau	LocServAv LocServGet	Mae'r gallu i gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ; gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn adrodd yn erbyn y dangosydd hwn.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Democratiaeth a dealltwriaeth o gynghorau lleol	LocCouCont LocCouKnow LocCouSat	Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn helpu Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddeall barn pobl am eu cynghorwyr lleol, gan gynnwys canfyddiadau ynglŷn â pha mor dda y mae cynghorwyr yn ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd. Bydd y canlyniadau yn ein helpu i ddeall effeithiau cyfreithiau newydd a pha grwpiau mewn gwahanol rannau o Gymru sy'n ymgysylltu fwyaf / leiaf â gwleidyddiaeth leol a phrosesau gwneud penderfyniadau, ac a oes angen cymryd camau i ymgysylltu'n well â'r grwpiau sy'n ymgysylltu leiaf. Os oes gan yr ymatebydd fwy nag un cynghorydd lleol, dylai feddwl am yr un y mae wedi cael y cysylltiad mwyaf ag ef/hi / yr wybodaeth fwyaf ganddo/ganddi.	
Cydlyniant cymunedol	LaOvSat LaBelong LaDifBgrnd LaRespCons	Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn a yw pobl yn fodlon ar eu hardal leol, a ydynt yn teimlo eu bod yn perthyn, ac am deimladau pobl am eraill sy'n byw yno. Defnyddir y cwestiynau i fonitro Cydlyniant Cymunedol: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ac fe'u defnyddir i fesur cynnydd yn erbyn un o ddangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Diogelwch cymunedol	SfAreaDark SfHmDark SfPTDark SfCarDark	Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â chanfyddiadau ynglŷn â diogelwch mewn amrywiol sefyllfaoedd (e.e. cerdded ar eich pen eich ar ôl iddi nosi). Mae teimlo'n ddiogel yn un o elfennau allweddol llesiant ac mae cyfran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ; gofynnir y cwestiynau hyn i fesur lefelau diogelwch canfyddedig er mwyn adrodd yn erbyn y dangosydd hwn.	SfHmDark, SfPTDark, SfCarDark – Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r cwestiynau hyn yn ymwneud â ph'un a yw'r ymatebwyr yn eu rhoi eu hunain yn y sefyllfaoedd hyn ai peidio. Os nad ydynt yn byth yn eu rhoi eu hunain yn y sefyllfaoedd hyn, dylent feddwl am ba mor ddiogel y <i>byddent</i> yn teimlo <i>petaent</i> yn gwneud hynny, a hynny am nad ydym am golli safbwyntiau (er enghraifft) pobl nad ydynt byth yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus gyda'r nos am na fyddent yn teimlo'n ddiogel pe baent yn gwneud hynny.
Peryglon - Sŵn	HazNoise HazNoiseC HazNoiseCOT	Mae angen tystiolaeth ar y pwnc hwn er mwyn penderfynu a oes angen newid Rheoliadau Adeiladu i gynnwys safonau llymach ar inswleiddio sŵn. Gall lefelau inswleiddio gwael rhag sŵn arwain at ansawdd bywyd gwaeth i feddianwyr, sy'n cael effaith ar lesiant pobl a'u boddhad gyda'u hardal leol sy'n rhan bwysig o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.	Dim ond os yw'r ymatebwyr wedi byw yn y cyfeiriad am fwy na 12 mis y gofynnir y cwestiynau hyn.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Ansawdd yr amgylchedd lleol	LaFlyTipProb LaLittProb LaDogProb LaGraffProb	Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phroblemau gyda sbwriel a phroblemau amgylcheddol lleol eraill. Bydd y cwestiynau hyn yn ein helpu i ddeall i ba raddau y mae camau gweithredu'n llwyddiannus, a thargeddu camau gweithredu yn y dyfodol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir.	Mae'r cwestiwn yn gofyn am ddehongliad yr ymatebydd ei hun – rhoddir barn yn yr atebion.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Newid yn yr hinsawdd - safbwyntiau	CliChanView CliChanCause2 CliChanCon CliChanWhen CliChanRespPublic CliChanRespBus CliChanRespGov CliChanGov	Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y cwestiynau hyn yn ein helpu i ddeall safbwyntiau pobl ynghylch a yw newid yn yr hinsawdd yn digwydd, beth yw'r achosion a'r effeithiau yn eu barn nhw, a phwy sy'n gyfrifol am weithredu yn eu barn nhw. Bydd y canlyniadau yn ein helpu i nodi pa rwystrau sy'n bodoli o hyd o ran sicrhau bod pobl yn deall y consensws gwyddonol ynglŷn ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl, a'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater. Gofynnir set o gwestiynau ynglŷn ag ymddygiadau newid yn yr hinsawdd yn yr adran ar-lein hefyd, a gellir eu dadansoddi ochr yn ochr â'r cwestiynau hyn er mwyn deall agweddau ac ymddygiadau'n well.	Mae'r cwestiynau yn gofyn am ddehongliad yr ymatebydd ei hun – rhoddir barn yn yr atebion.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Anifeiliaid anwes	HPHave HPTyp HPTypOT HPNumber HP5y HPTIME HPFr HPPetShop HPLicBreeder HPPrivSel HPKitten HPPuppy HPIns HPMC	Defnyddir gwybodaeth am y mathau o anifeiliaid anwes a gedwir yng Nghymru, perchenogaeth gyfrifol a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth gyfredol i lywio canllawiau, ymgynghoriadau a deddfwriaeth ym maes lles anifeiliaid yn awr ac yn y dyfodol. Bydd cwestiynau yn gofyn a yw perchenogion anifeiliaid anwes wedi gosod microsglodyn yn eu cŵn, eu cathod a'u ceffylau yn helpu i roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i fonitro effaith rheoliadau microsglodyn. HPKitten and HPPuppy – Cyflwynwyd gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti yng Nghymru yn ddiweddar. Defnyddir gwybodaeth am ble ac ar ba oedran y cafwyd cŵn a chathod i fonitro hyn.	
Statws economaidd a chymwysterau (Craidd)	CvEconStat2 Hours WkingHH Educat2 ApprLev	Cadarnhau a yw ymatebwyr mewn unrhyw fath o gyflogaeth neu hyfforddiant, am faint o oriau y maent yn gweithio, ac a oes unrhyw un arall yn yr aelwyd yn gweithio. Drwy hyn bydd modd dadansoddi canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (e.e. a oes gan bobl sydd â lefelau cyrhaeddiad addysgol gwahanol farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Statws economaidd a chymwysterau (Craidd): Car	CarUse	Deall a yw car ar gael i'r ymatebydd. Mae hyn yn ein helpu i ddadansoddi cwestiynau ynglŷn â mynediad at wasanaethau.	
Cyflogadwyedd a chymorth	EmpHelpIntro1 WorkWant LastPaidJob2 LastPaidJobM LastPaidJobY EmpHelpYN EmpHelpNo EmpHelpNoOT EmpHelpOrg EmpHelpOrgOT EmpHelpOrgMain EmpHelpTyp EmpHelpTypOT FindWorkX FindWorkXOT EmpHelpQual FindWorkAgeX FindWorkAgeXOT EmpHelpAware	Cael gwybodaeth am brofiadau pobl o ddod o hyd i waith. Cyflwynwyd y rhaglen, Cymru'n Gweithio, er mwyn helpu pobl o bob oedran i oresgyn rhwystrau a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael cyflogaeth gynaliadwy o safon dda a'i chadw. Bydd canlyniadau'r cwestiynau hyn yn rhoi amcan o ba mor llwyddiannus yw'r newidiadau hyn, ac a oes angen cymryd camau pellach. Bydd canlyniadau'r cwestiynau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i helpu i ymateb i effeithiau pandemig y coronafeirws.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Addysg ôl-orfodol a hyfforddiant	Train TrainPlan TrainWnt TrainQual TrainQualTyp TrainQualTypOT TrainReas TrainReasOT TrainPatt TrainWhere TrainLikely TrainNo TrainNoOT PostEdSat	Gofynnwyd y cwestiynau hyn o'r blaen yn 2018-19, a'u diben yw monitro newid dros amser a gwerthuso effaith diwygiadau Addysg Uwch (Cynllun Dadansoddi diwygiadau Diamond) ar ddewisiadau astudio. Byddant yn helpu i nodi effaith y camau gweithredu a gymerwyd i wella mynediad at gymwysterau ar lefelau gwahanol, ymwybyddiaeth ohonynt a'r awydd i'w hennill. Bydd y canlyniadau hefyd yn rhoi tystiolaeth sylfaenol ynglŷn â'r diwygiadau i'r sector addysg ôl-orfodol cyfan ar ôl cyflwyno'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Drwy ofyn y cwestiynau hyn eto yn 2021-22 bydd modd i Lywodraeth Cymru ddeall newidiadau ym mhoblogrwydd gwahanol opsiynau dysgu gydol oes ar lefelau daearyddol gwahanol, a llywio buddsoddiadau wrth ddarparu cyfleoedd dysgu. Mae diwygiadau Diamond a diwygiadau'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn elfennau hanfodol o amcanion Uchelgeisiol a Dysgu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, themâu Ffyniant i Bawb a blaenoriaethau trawsbynciol y Blynyddoedd Cynnar, Iechyd Meddwl a Sgiliau a Chyflogadwyedd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Defnydd o'r rhyngwrwyd	IntHhHave IntPersUse IntPersUseCheck IntFrqAccE	Wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein, mae pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn colli'r cyfleoedd enfawr y gall y rhyngwrwyd eu cynnig, gan gynnwys cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau ar-lein rhatach; chwilio a gwneud cais am swyddi ar-lein; lleihau achosion o deimlo'n unig a helpu pobl i fyw'n annibynnol; a chael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ar-lein mwy cyfleus. Mae'r adran hon yn casglu gwybodaeth am fynediad yr aelod i'r rhyngwrwyd a defnydd yr ymatebydd ei hun o'r rhyngwrwyd. Bydd y canfyddiadau yn helpu i lywio camau gweithredu Llywodraeth Cymru i helpu mwy o bobl i fynd ar-lein.	Mae'r adran hon yn ymwneud â phopeth sy'n cysylltu â'r rhyngwrwyd, nid dim ond cyfrifiaduron neu liniaduron. Gofynnwch a oes gan yr ymatebydd deledu clyfar, llechen neu ffôn clyfar.
Sgiliau'r rhyngwrwyd	IntInfoSearchDone IntProbInfoDone IntComEmailDone IntTransAccountDone IntSafeSetDone IntComSocialDone IntTransBuyDone IntInfoEntDone IntProbHelpDone IntSafeUpdateDone	Cael gwybodaeth am lefel sylfaenol sgiliau rhyngwrwyd pobl. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys ymdrin â gwybodaeth a chynnwys, cyfathrebu, cynnal trafodiadau, datrys problemau a bod yn ddiogel ac yn gyfreithlon ar-lein. Bydd y canfyddiadau yn helpu Llywodraeth Cymru i gymryd camau i helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r rhyngwrwyd.	Dim ond yr ymatebwyr hynny sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd a fydd yn cael eu holi am yr adran hon.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Gwirfoddoli	CvVol CvVolTime VolCont	Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys i ddeall i ba raddau y mae pobl wedi bod yn gwirfoddoli er mwyn helpu yn ystod pandemig y coronafeirws yn ddiweddar a'u hymrwymiad i wneud hynny yn y dyfodol fel y gall Llywodraeth Cymru gefnogi hyn.	
Credyd cynhwysol	WelfUC WelfUCApp UCHousYN CvRentArrs2 RentArrsWhyUC RentArrsWhyNonUC	Mae Llywodraeth y DU wedi uno chwech o'r prif fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd yn un budd-dal, a elwir yn Gredyd Cynhwysol. Nod y cwestiynau hyn yw canfod sut mae pobl yn ymdopi â chostau tai o dan Gredyd Cynhwysol. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol i helpu pobl yng Nghymru y mae diwygiadau lles wedi effeithio arnynt. Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd. Mae'r cwestiynau hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y rhai a gronnodd ôl-ddyledion rhent yn ystod pandemig y coronafeirws er mwyn monitro ac ymateb i effaith y pandemig.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Amddifadedd materol aelwydydd: rhai nad ydynt yn cynnwys pensiynwyr (Craidd, CD)	ADHol ADDec ADIns ADMon ADFur CvFinBilCred ADRep ADSelf ADHeat	Canfod a all pobl fforddio nwyddau a gweithgareddau pob dydd. Mae Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gwella canlyniadau aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Nod y Strategaeth a'r Cynllun yw lleihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus ymhlith rhai o'n bobl a'n cymunedau tlotaf, a hefyd ei gwneud yn llai tebygol y bydd pobl yn mynd yn dlawd. Un ffordd o fesur tlodi yw drwy ofyn cwestiynau ar amddifadedd materol. Mae cwestiynau ynglŷn ag amddifadedd materol wedi'u cynllunio i gofnodi goblygiadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na straen yn y byrdymor. Caiff y canlyniadau eu defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwyddynt bydd modd hefyd dddadansoddi canlyniadau eraill yr arolwg ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan bobl sy'n wynebu amddifadedd materol farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus o'u cymharu â phobl nad ydynt yn wynebu amddifadedd materol?)	Dyma'r set graidd o gwestiynau ynglŷn ag amddifadedd materol i aelwydydd, a ofynnir i bob ymatebydd nad yw'n bensiynwr (a ddiffinnir yn ôl oedran). Gofynnir y cwestiynau hefyd i bensiynwyr sy'n rhieni/gwarcheidwaid plant dibynnol (er mwyn cyfrifo mesur o amddifadedd plant). Cyfrifir sgôr amddifadedd materol i'r ymatebydd ar sail ei ymatebion i'r cwestiynau hyn. Os bydd sgôr yr ymatebydd ar y ffin, gofynnir cwestiynau ychwanegol iddo. Y rheswm dros wneud hyn yw sicrhau ein bod yn gofyn cyn lleied o gwestiynau â phosibl er mwyn cyfrifo a yw aelwyd yn wynebu amddifadedd. Os yw'n amlwg p'un a yw aelwyd yn wynebu amddifadedd ai peidio, yn seiliedig ar eu hatebion i'r ychydig gwestiynau cyntaf, yna ni fydd angen gofyn y cwestiynau ychwanegol.

amddifadedd materol aelwydydd – pensiynwyr (Craidd, CD)	OACook OAHome OADamp OAWarm CVFinBilCredP OATaxi OAHair OAFrnd OACookNt OAHomeNt OADampNt OAWarmNt OATaxiNt OAHairNt OAFrndNt OAMeal OAOut OAHol OAHeat OAPhon OACoat OAExpns OAHowPy OAHowPyOT MealNt OutNt HolNt HeatNt PhonNt	Canfod a all pobl fforddio nwyddau a gweithgareddau pob dydd. Defnyddir set wahanol o gwestiynau ynglŷn ag amddifadedd materol i bensiynwyr, a hynny am fod pensiynwyr, pan ofynnir y cwestiynau safonol ynglŷn ag amddifadedd materol iddynt, yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oes arnynt angen unrhyw eitemau nad oes ganddynt. Datblygwyd y cwestiynau ynglŷn ag amddifadedd materol i bensiynwyr i fod yn fesur mwy cywir o amddifadedd materol ymhlith y grŵp hwn. Yr un yw'r rhesymeg dros ofyn y cwestiynau a'r ffordd y caiff hynny ei wneud â'r cwestiynau i bobl nad ydynt yn bensiynwyr (gweler uchod).	Mae hon yn set graidd o gwestiynau ynglŷn ag amddifadedd materol aelwydydd i bensiynwyr (a ddiffinnir yn ôl oedran). Cyfrifir sgôr amddifadedd materol i'r ymatebydd yn seiliedig ar ei ymatebion i'r cwestiynau hyn. Os bydd sgôr yr ymatebydd ar y ffin, gofynnir cwestiynau ychwanegol iddo. Y rheswm dros wneud hyn yw sicrhau ein bod yn gofyn cyn lleied o gwestiynau â phosibl er mwyn cyfrifo a yw aelwyd yn wynebu amddifadedd. Os yw'n amlwg p'un a yw pobl yn wynebu amddifadedd ai peidio, yn seiliedig ar eu hatebion i'r ychydig gwestiynau cyntaf, yna ni fydd angen gofyn y cwestiynau ychwanegol. Mae'r cwestiynau yn gofyn am ddehongliad yr ymatebydd ei hun – rhoddir barn yn yr atebion. OACook – Os bydd ymatebydd yn gofyn a yw'r cwestiwn hwn yn golygu prynu ffwrn newydd, atebwch ei fod yn golygu “Naill ai prynu un newydd, neu un ail law.” OAOut – Mae cymdeithasu yn cynnwys: cwrdd â phobl yn gymdeithasol y tu allan i'r cartref, mynd am bryd o fwyd, mynd i'r dref ac ati. Mae cymdeithasu hefyd yn cynnwys cwrdd â phobl yng nghartrefi
---	--	--	--

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
	CoatNt		pobl eraill – ar yr amod bod yr ymatebydd yn gadael ei gartref ei hun. O ran y cwestiynau ynglŷn â pham nad oes gan bobl eitemau penodol, nodir bod y categorïau o ymateb yn cynnwys sawl cod – gall ymatebwyr ddewis cynifer o eitemau ag sy'n berthnasol iddynt hwy.
Tlodi bwyd	CvFPEv2dEa2 FPreasProt FPreasProtOT FSubMeal FPreasSubs FPreasSubsOT FPSmSkp FPreasSmSkp FPreasSmSkpOT CvFPFoodB FBFreq	Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys i roi tystiolaeth genedlaethol, gadarn ar y defnydd o fanciau bwyd. Cânt eu defnyddio i lywio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner yn mynd i'r afael â thlodi bwyd yng Nghymru.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Ysgolion cynradd	PsChildEnrolb PsWhich PsFeePaya PsDevS CvPsNum CvPsLet PsComp PsCompUse AtPsModeTrav AtPsModeTravOT	Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael gwybodaeth am ba fath o ysgol gynradd a fynychir, faint o gymorth sydd ar gael i rieni a phlant, ac a oes cyfrifiadur neu ddyfais ar gael i blant. Bydd y cwestiynau hyn yn rhoi tystiolaeth feintiol i ategu ffynonellau eraill o wybodaeth am effaith pandemig y coronafeirws ar ddysgwyr, rhieni ac ysgolion, ac yn olrhain cynnydd drwy gymharu'r sefyllfa cyn, yn ystod ac ar ôl y tarfu. Bydd y canfyddiadau yn llywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r adferiad o effeithiau'r pandemig a'r tarfu ar addysg. Gofynnir y cwestiynau am sut mae plentyn yr ymatebydd yn teithio i'r ysgol gynradd er mwyn monitro cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded/beicio fel rhan o'u trefn arferol, e.e. oedolion yn teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol.	Canolbwyntir ar ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol), felly dim ond os yw'r plentyn yn mynychu ysgol sy'n cael ei hariannu gan y wladwriaeth y gofynnir y cwestiynau. (20-21)

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Ysgolion uwchradd	SsChildEnrolb SsWhich SsFeePaya SsDevS SsSupport SsComp SsCompUse AtSsModeTrav AtSsModeTravOT	Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael gwybodaeth am y math o ysgol uwchradd a fynychir, faint o gymorth sydd ar gael i rieni a phlant, ac a oes cyfrifiadur neu ddyfais ar gael i blant. Bydd y cwestiynau hyn yn rhoi tystiolaeth feintiol i ategu ffynonellau eraill o wybodaeth am effaith pandemig y coronafeirws ar ddysgwyr, rhieni ac ysgolion, ac yn olrhain cynnydd drwy gymharu'r sefyllfa cyn, yn ystod ac ar ôl y tarfu. Bydd y canfyddiadau yn llywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r adferiad o effeithiau'r pandemig a'r tarfu ar addysg. Gofynnir y cwestiynau ynglŷn â sut mae plentyn yr ymatebydd yn teithio i'r ysgol uwchradd er mwyn monitro cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n annog pobl i gerdded/beicio fel rhan o'u trefn arferol, e.e. oedolion sy'n teithio i'r gwaith neu blant sy'n teithio i'r ysgol.	Canolbwyntir ar ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru (drwy awdurdodau lleol), felly dim ond os yw'r plentyn yn mynychu ysgol sy'n cael ei hariannu gan y wladwriaeth y gofynnir y cwestiynau.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Dyheadau addysgol	EdAspsChld EdAspsChldOT EdAspsChldOpSat	Ar ôl iddynt gael eu gofyn yn 2018-19 hefyd, caiff ymatebion i'r cwestiynau hyn eu defnyddio i ddeall yn well ddewisiadau yn y gorffennol ac yn y dyfodol a'r galw ar y sector addysg ôl-16. Byddant yn llywio polisi o ran y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau, yn dysgu ac yn ennill cymwysterau, yn ogystal â'r galw am gymorth i fyfyrwyr a sut i dargedu a gwella effaith gweithgareddau marchnata a hyrwyddo perthnasol Llywodraeth Cymru. Byddant hefyd yn cefnogi'r gweithgarwch gwerthuso ar gyfer y diwygiadau ym maes addysg uwch.	
Gweithgarwch corfforol plant	CActMon CActTue CActWed CActThu CActFri CActSat CActSun	Mae Llywodraeth Cymru, a'i sefydliadau partner fel GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn mynd ati i helpu i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol plant. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio i roi darlun clir o lefelau gweithgarwch corfforol plant, ac i helpu i ddeall pa gamau y bydd angen inni eu cymryd i wella hyn ymhellach.	
Hawliau plant	UNCRCYN UNCRCRights	Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn mesur y lefel o ymwybyddiaeth, deall sut mae hyn wedi newid ers i'r Arolwg Cenedlaethol yn 2017-18 godi'r pwnc ddiwethaf, a helpu i dargedu adnoddau i godi ymwybyddiaeth ymhellach.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Cwestiynau ynglŷn â demograffeg iechyd (Craidd)	HealthIntro1 GenHealth	Casglu gwybodaeth am asesiad pobl eu hunain o'u hiechyd cyffredinol. Mae'r wybodaeth yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni ym maes iechyd a chaiff ei defnyddio hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Drwy'r cwestiwn hwn bydd modd dadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan bobl â statws iechyd gwahanol farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?).	Ni ddefnyddir y canlyniadau i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.
Yn feichiog	Pregnant	Mae angen gofyn y cwestiwn hwn er mwyn sicrhau nad yw merched beichiog yn cael eu cynnwys yng nghyfrifiadau Mynegai Mâs y Corff (BMI). Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	
BMI (CD)	HtImpMet HtMet HtImp WtImpMet WtMet WtImp	Asesu pwysau corf iach a lefelau gordewdra. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth hefyd gan sefydliadau eraill (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd.	

Salwch hirdymor (Craidd)	LongIII Disab1-6E DisabLimit1-6E DisabAnoth1-5E CvHad	Cael gwybodaeth am lefelau cyflyrau iechyd hirdymor (gan gynnwys COVID-19) ac anabledd ymhlith y boblogaeth, a sut maent yn newid. Mae gan lawer o bobl o leiaf un cyflwr iechyd hirsefydledig, ac mae pobl â sawl cyflwr yn eithaf cyffredin hefyd. Drwy'r cwestiwn hwn bydd modd dadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan bobl â chyflyrau iechyd neu salwch farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?). Mae LongIII yn gwestiwn sydd wedi'i gysoni â SYG, felly bydd modd cymharu'r canlyniadau'n eang â'r rhai o arolygon eraill y llywodraeth. Fel yn achos GenHealth, mae'r wybodaeth yn rhoi cyd-destun ar gyfer amrywiol gynlluniau cyflawni ym maes iechyd a chaiff ei defnyddio hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ni ddefnyddir yr wybodaeth i adnabod unigolion mewn unrhyw ffordd.	O ran LongIII, canolbwyntir ar gyflyrau hirhoedlog sy'n debygol o ofyn am rywfaith o oruchwyliaeth a thriniaeth, megis diabetes. Dylid cynnwys: • diffygion ar y synhwyrau • problemau symudedd nad ydynt yn rhai dros dro megis dyspraxia a pharlys yr ymennydd • cyflyrau datblygiadol megis awtistiaeth a syndrom Asperger • cyflyrau sy'n gysylltiedig â nam dysgu (anabledd) megis syndrom Down • dyslecsia • asthma • diabetes • cyflyrau'r galon a chyflyrau eraill cylchrediad y gwaed • cyflyrau anadlol • cyflyrau'r system dreulio • gorbryder ac iselder ac ati os ydynt wedi para neu y disgwylir iddynt bara am 12 mis neu fwy • cyflyrau tymhorol megis clefyd y gwair sy'n codi fwy nag unwaith ac sydd wedi parhau neu y disgwylir iddynt godi eto yn y dyfodol. • cyflyrau lle mae rhywun yn cael pyliau sydyn o bryd i'w gilydd, ond nad ydynt yn para am fwy na 12 mis
-----------------------------	---	---	---

			• problemau na chanfyddir eu bod yn ddifrifol neu sy'n cael eu rheoli'n dda drwy driniaeth ac addasiadau ffordd o fyw ac nad ydynt yn cael effaith ganfyddadwy ar weithgareddau o ddydd i ddydd, ond sydd, eto i gyd, yn hirhoedlog. Ni ddylid cynnwys: • Cyflyrau dros dro er mor ddifrifol ydynt. Gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd yw'r rhai y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgymryd â nhw bob dydd, gan gynnwys: • ymolchi ac ymwisgo, • glanhau'r tŷ, • coginio, • siopa am hanfodion, • defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu breifat, • cerdded am bellter penodol, • dringo'r grisiau, • cofio talu biliau, • codi gwrthrychau o'r llawr neu oddi ar arwyneb gwaith yn y gegin • tasgau cymharol ysgafn sy'n defnyddio'r dwylo megis garddio • cydio mewn gwrthrychau megis cyllyll a ffyrc; • clywed a siarad mewn ystafell swnllyd.
--	--	--	--

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
			Byddai'r categori o ateb 'Oes, eithaf tipyn', er enghraifft, yn briodol i rywun y mae angen rhywfaint o gymorth arno gan aelodau'r teulu, ffrindiau neu wasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau beunyddiol arferol. Nodyn pwysig Dylai'r ymatebwyr ateb ar sail y cyfyngiadau presennol ar eu gweithgareddau, gan ystyried unrhyw driniaeth, meddyginiaeth neu ddyfeisiau eraill megis cymorth clyw y maent yn eu cael neu eu defnyddio. Er enghraifft, os bydd angen cymorth clyw ar yr ymatebydd ac nad yw'r defnydd o'r ddyfais yn arwain at unrhyw gyfyngiadau ar ei weithgareddau o ddydd i ddydd, yna dylid defnyddio cod 3 'Ddim o gwbl'

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Deiet (CD)	VegSalad SaladQ VegPulses PulsesQ VegVeg VegQ VegDishYN VegDishQ FruitType FruitVSQ FruitSMQ FruitLVLQ FruitFrzTinQ FruitDriedQ FruitJuiceQ FruitDishYN FruitDishQ	Ein helpu i ddeall a yw pobl yn cael 5 cyfran o ffrwythau a llysiau y dydd. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth gan sefydliadau eraill hefyd (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd.	Mae maint cyfrannau ar gyfer bwydydd gwahanol wedi cael eu troi'n unedau bob dydd er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gyfrifo (a monitro) eu cymeriant dyddiol.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Alcohol (CD)	Alc12m CvDnOcc DnEv CvDnCond CvDnFreq DnFreqWk DnType12m CvDnOftBr DnOftBrFreqWk DnUBrMeas DnUBrPint DnUBrSmC DnUBrLgC DnUBrBot CvDnOftWine DnOftWineFreqWk CvDnUWine DnUWineMeas CvDnOftSpir DnOftWpirFreqWk DnUSpir	Deall lefelau yfed yng Nghymru. Cwestiynau safonol yw'r rhain, a ofynnir ar sawl arolwg o iechyd sydd wedi cael ei gynnal ers amser, megis Arolwg Iechyd Lloegr. Drwyddynt bydd modd monitro newidiadau yn lefelau yfed alcohol yng Nghymru ac ymhlith poblogaeth y DU dros amser. Mae gwybodaeth yr Arolwg Cenedlaethol hefyd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gefnogi ymchwil sy'n gysylltiedig â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafswm Bris am Alcohol) (Cymru) 2018. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach hefyd yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Defnyddir yr wybodaeth yn eang gan sefydliadau eraill (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Smygu a'r defnydd o e-sigarêts (CD)	Smoke SmChange SmMore SmLess CvSmQuitTry SmQuitTm SmAge EcigEv EcigNow EcigOft EcigAge SmEcigFirst	Cael gwybodaeth am lefelau smygu a'r defnydd o e-sigarêts Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach (gan gynnwys peidio â smygu) yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Defnyddir yr wybodaeth yn eang hefyd gan sefydliadau eraill (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu er mwyn helpu pobl i wneud dewisiadau iach.	Dylid cynnwys Dim ond tybaco cyffredin sy'n cael ei smygu. Ni ddylid cynnwys Snisin, tybaco neu gynhyrchion tybaco sy'n cael eu cnoi neu eu sugno, na thybaco llysieuol.
Gweithgarwch corfforol (CD)	Walk WalkTime WalkPace WalkSweat ModAct ModActTime VigAct VigActTime	Cael gwybodaeth am wahanol fathau o weithgarwch corfforol – cerdded, gweithgarwch cymedrol neu egnïol – a wnaed yn ystod y saith diwrnod blaenorol. Mae cyfran y bobl sy'n gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach (gan gynnwys gwneud ymarfer corff yn rheolaidd) yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Defnyddir yr wybodaeth yn helaeth gan sefydliadau eraill hefyd (gan gynnwys y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, llywodraeth leol ac eraill) i ddatblygu strategaethau, monitro cynnydd a gweithredu ar faterion iechyd y cyhoedd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Teithio llesol	AtFrqBke AtFrqWik10	Cael gwybod a yw pobl yn cerdded neu'n beicio fel dull teithio (e.e. i gyrraedd y gwaith). Defnyddir y canlyniadau i fonitro cynnydd yn erbyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 , sy'n annog pobl i gerdded a/neu feicio fel rhan o'u trefn feunyddiol (e.e. oedolion y teithio i'r gwaith neu blant yn teithio i'r ysgol).	
Chwaraeon Cymru – Lefelau cyfranogi presennol a galw cudd (CD)	SWFilter SWFilterLD SWFitness SWSportGam SWOutPur SWGymFit, SWCyc, SWSwim etc. SWFreq SWLatDemYN SWLatDem	Cael gwybodaeth am ba chwaraeon y mae pobl yn cymryd rhan ynddynt a pha mor aml y maent yn cymryd rhan, ac am y galw nas diwellir i gymryd rhan mewn chwaraeon. Defnyddir y cwestiynau hyn gan Chwaraeon Cymru i fonitro tueddiadau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon ac a yw lefelau cyfranogi yn wahanol i grwpiau gwahanol o bobl. Caiff y canlyniadau eu defnyddio er mwyn helpu i lywio polisïau ym maes chwaraeon, iechyd ac addysg, a bwydo i mewn i benderfyniadau am fuddsoddi mewn chwaraeon. Defnyddir yr wybodaeth gan sefydliadau cyhoeddus eraill hefyd, megis awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu cenedlaethol chwaraeon.	SWFilter a SWFilterLD - Gofynnir y rhain i ymatebwyr penodol (75 oed ac yn hŷn, 60 oed ac yn hŷn â salwch hirdymor cyfyngus neu nad ydynt wedi cerdded nac wedi ymgymryd â gweithgarwch cymedrol neu egnïol yn ystod y saith diwrnod diwethaf) oherwydd gwyddom fod cyfranogiad yn y grwpiau hyn yn debygol o fod yn is na'r cyfartaledd. Os bydd yr ymatebwyr hyn yn ateb nad ydynt yn cymryd rhan yn y chwaraeon hyn, gallant symud i'r adran nesaf yn lle ateb y set lawn o gwestiynau ynglŷn â chwaraeon. Mae hyn yn helpu i gadw'r cyfweliad mor fyr â phosibl iddynt a hefyd sicrhau bod y canlyniadau'n dal yn gadarn.

Llesiant (Craidd, ONS4)	WbSatLife WbLifeWrth WbHapYest WbAnxYest	Cael gwybodaeth am wahanol agweddau ar lesiant pobl (e.e. boddhad gyda bywyd). Bydd hyn yn helpu i lywio camau gweithredu i wella llesiant. Mae cwestiynau ynglŷn â llesiant hefyd wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod modd dadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl (e.e. a oes gan bobl â lefelau llesiant uwch farn wahanol am wasanaethau cyhoeddus?).	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau sy'n gofyn am farn yw'r rhain. Efallai y byddwch yn gyfarwydd â nhw o arolygon megis yr arolwg o ffordd o fyw cyffredinol (GLF) ac arolwg o safbwyntiau (OPN). Yr ymatebydd fydd yn penderfynu pa un o'r datganiadau sy'n golygu rhywbeth iddynt, ac felly a ydynt yn cytuno ai peidio. Nid ydym yn ceisio eu hannog i roi ymateb penodol. Mae'n bwysig iawn nad yw'r cyfwelydd yn ceisio dylanwadu ar yr ymatebydd mewn unrhyw ffordd. Peidiwch ag awgrymu ateb. Ychydig o bwyntiau cyffredinol ynglŷn â chwestiynau sy'n gofyn am farn: • Os bydd yr ymatebydd yn cael anhawster ateb cwestiynau, a bod hyn yn achosi embaras neu ofid, bydd angen i chi bwysleisio nad oes ateb cywir nag anghywir, a'ch bod yn awyddus i glywed beth mae'n ei wybod neu'i feddwl. Gallwch bob amser ymdrin â hyn drwy gydymdeimlo a dweud y byddech chithau hefyd yn cael y cwestiynau'n anodd.
--------------------------------	---	---	---

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
			Efallai y bydd ymatebydd yn gofyn i chi beth yw'r ateb cywir i gwestiwn sy'n gofyn am roi barn. Bydd angen i chi ymdrin â'r sefyllfa hon yn ofalus iawn oherwydd ni ddylech byth roi ateb yn ystod y cyfweiliad. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud nad yw eich barn yn berthnasol ac mai barn yr ymatebydd sy'n bwysig. Os bydd yr ymatebydd yn ymateb i gwestiwn sy'n gofyn am roi barn drwy ofyn "beth rydych yn ei feddwl?", ni ddylech byth geisio esbonio beth mae'n ei feddwl. Os nad yw'r ymatebydd yn deall y cwestiwn, dylech ddarllen y cwestiwn unwaith yn rhagor, yn union fel y mae wedi'i eirio. Os na all yr ymatebydd ateb y cwestiwn o hyd, ar ôl i chi ofyn y cwestiwn eto, dylech nodi "ddim yn gwybod" a symud ymlaen. Ni ddylid ailadrodd y cwestiwn fwy nag unwaith o dan unrhyw amgylchiadau; ac ni ddylid byth addasu'r geiriad ychwaith.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Unigedd (CD)	LoneEmp LoneMiss LoneRej LoneRely LoneTrust LoneClose	Mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys i'n helpu i ddeall yr agwedd bwysig hon ar lesiant pobl, a chael gwybodaeth am gymorth cymdeithasol ac emosiynol ymatebwyr. Bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i benderfyniadau ynglŷn â sut i wella llesiant pobl. Mae cyfran y bobl sy'n unig hefyd yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Caiff y canlyniadau hyn eu defnyddio i fonitro yn erbyn y dangosydd.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Gwasanaethau meddygon teulu	GpSeenDr GPDrFreq GpNSeenDr GpNSeenDr2 GpMode GpAppoint GpAppEase CvGpAppDif CvGpAppDifOT CvGpAppDifE GpAppDifEOT GpOverSat GpIntro3 GpSeenPract GpNSeenPract GpNSeenPract2 GpPractType GpPractTypeOT GPIntro4 GpPractMode GpPractAppoint GpPractAppEase GpPractAppDif GpPractAppDifOT GpPractAppDifE CvGpPractAppDifEOT GpPractOverSat	Cael gwybodaeth am farn pobl am y gwasanaethau y maent wedi'u cael gan eu meddyg teulu, gan gynnwys a yw'n hawdd iddynt gael apwyntiad sy'n gyfleus iddynt ac a ydynt yn fodlon ar y gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried safbwyntiau defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad y GIG yng Nghymru a defnyddir y canlyniadau i fonitro perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn allweddol i ddeall pa mor dda y mae GIG Cymru yn ei wneud a nodi meysydd lle ceir perfformiad da neu lle mae angen newidiadau.	Dim ond am ofal y GIG rydym yn awyddus i gael gwybodaeth, nid gwasanaethau iechyd preifat. Yn achos pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau y tu allan i Gymru, dylid gofyn yr holl gwestiynau ynglŷn ag iechyd o hyd. GIG Cymru sy'n gyfrifol am bobl sy'n byw yng Nghymru hyd yn oed os ydynt yn cael eu trin gan y GIG yn Lloegr neu rywle arall. Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn cynnwys rhai cwestiynau sy'n gofyn am roi barn. Gweler y canllawiau ar gwestiynau sy'n gofyn am farn.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Apwyntiadau ysbyty	HspHadApp HspFreq HspPatType HspMode HspDigRespa HspOverSat	Cael gwybodaeth am farn pobl am eu hapwyntiadau ysbyty, gan gynnwys cwestiynau ynglŷn ag amllder apwyntiadau, ai apwyntiad claf allanol, claf dydd neu glaf mewnol oedd, ai apwyntiad wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy alwad fideo oedd, a oeddent wedi cael eu trin gydag urddas a pharch yn eu barn nhw ac a oeddent yn fodlon ar y gofal a roddwyd iddynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ystyried safbwyntiau defnyddwyr gofal iechyd wrth fesur perfformiad y GIG yng Nghymru a defnyddir y canlyniadau i fonitro perfformiad yn erbyn Fframwaith Canlyniadau'r GIG Llywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith yn allweddol i ddeall pa mor dda y mae GIG Cymru yn ei wneud a nodi meysydd lle ceir perfformiad da neu lle mae angen newidiadau.	Dim ond am ofal y GIG rydym yn awyddus i gael gwybodaeth, nid gwasanaethau iechyd preifat. Yn achos pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau y tu allan i Gymru, dylid gofyn yr holl gwestiynau ynglŷn ag iechyd o hyd. GIG Cymru sy'n gyfrifol am bobl sy'n byw yng Nghymru hyd yn oed os ydynt yn cael eu trin gan y GIG yn Lloegr neu rywle arall. Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn cynnwys rhai cwestiynau sy'n gofyn am roi barn. Gweler y canllawiau ar gwestiynau sy'n gofyn am farn.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Apwyntiadau deintyddol	DentReg DentLast DentTyp DentWnt DentWntTyp DentNhsWnt DentXNhsWntReas DentXNhsWntReasOT DentXNhsXWntReas DentXNhsXWntReasOT DentAppoint DentEase DentDif DentDifOT DentOverSat	Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall a yw pobl yn cael anhawster i gael gwasanaethau deintyddol (deintyddion, hylenwyr neu orthodontwyr) ac a yw'r camau gweithredu a gymerwyd i wella mynediad yn gweithio.	Mae'r modiwl yn dechrau drwy ofyn a oes gan yr ymatebydd ddeintydd rheolaidd, a yw wedi cael apwyntiad yn ystod y 6 mis i ddwy flynedd ddiwethaf, ac ai un o ddeintyddion y GIG neu ddeintydd preifat oedd. Os nad yw'r ymatebydd wedi gweld deintydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cwestiynau yn gofyn a oedd am gael apwyntiad ac a oedd rhwystrau wedi ei atal rhag cysylltu â'r ddeintyddfa.
Nam ar y clyw	HearDiff HearAid HearAidN HearAidFrom HearTin HearTinFreq HearTinSev	Gofynnir y cwestiynau er mwyn deall materion ynglŷn â'r clyw megis anawsterau clywed a'r defnydd o gymhorthion clyw. Caiff y canlyniadau eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner megis lechyd Cyhoeddus Cymru.	Mae'r cwestiynau ynglŷn â thinitws yn ymwneud â synau yn y clustiau neu'r pen nad ydynt wedi'u hachosi gan ffynhonnell allanol. Gall y synau hyn fod yn debyg i atseinio, canu, rhuthr, mwmian, hisian, sŵn curo, neu gerddoriaeth neu ganu.
Gofal llygaid	EyeFreq EyeXReas EyeXReasOth	Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn helpu i ddeall a yw pobl yn cael profion llygaid yn rheolaidd a pha wasanaethau y byddent yn eu	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Gofal llygaid: Cymorth	EyeHelp EyeHelpOT	defnyddio pe bai ganddynt broblem frys â'u llygaid. Defnyddir y canlyniadau i asesu'r modd y mae'r ddogfen Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol yn cael ei rhoi ar waith. Mae hon yn nodi cynlluniau ar gyfer sut y bydd GIG Cymru yn darparu gwasanaethau gofal iechyd y llygaid dros y blynyddoedd nesaf.	
Bodddhad gyda gwasanaethau iechyd	HlthOverSat	Gofynnir y cwestiwn hwn i ganfod barn pobl am y gwasanaethau iechyd yng Nghymru – un o'r meysydd gwariant mwyaf i Lywodraeth Cymru. Daw'r cwestiwn o'r Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd, sef arolwg mawr sydd wedi bod yn cael ei gynnal ledled Ewrop ers 2002. Mae hyn yn golygu bod modd cymharu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol i Gymru â chanlyniadau mwy na 30 o wledydd eraill ledled Ewrop.	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau sy'n gofyn am farn yw'r rhain. Gweler y canllawiau ar gwestiynau sy'n gofyn am farn.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Bodddhad gyda'r system addysg	EdOverSat	Gofynnir y cwestiwn hwn i ganfod barn pobl am addysg yng Nghymru – un o'r meysydd gwariant mwyaf i Lywodraeth Cymru. Daw'r cwestiwn o'r Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd, sef arolwg mawr sydd wedi bod yn cael ei gynnal ledled Ewrop ers 2002. Mae hyn yn golygu bod modd cymharu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol i Gymru â chanlyniadau mwy na 30 o wledydd eraill ledled Ewrop.	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau sy'n gofyn am farn yw'r rhain. Gweler y canllawiau ar gwestiynau sy'n gofyn am farn.
Bodddhad gyda Llywodraeth Cymru	WgOverSat	Cael gwybodaeth am farn pobl am Lywodraeth Cymru. Mae'r cwestiwn yn bwysig o ran monitro pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Daw WgOverSat o'r Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd, sef arolwg mawr sydd wedi bod yn cael ei gynnal ledled Ewrop ers 2002. Mae hyn yn golygu bod modd cymharu canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol i Gymru â chanlyniadau mwy na 30 o wledydd eraill ledled Ewrop.	Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau sy'n gofyn am farn yw'r rhain. Gweler y canllawiau ar gwestiynau sy'n gofyn am farn.

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
CCC - Mynychu	MusVisit MusSat AttArts AttTheat AttMusic AttIntro AttFilmFreq AttArtFreq AttLitFreq AttCarnivalFreq AttFestivalFreq AttMusicalFreq AttOperaFreq AttBalletFreq AttContempFreq AttPlayFreq AttPantoFreq AttOthTheatFreq AttClassicalFreq AttJazzFreq AttFolkMusFreq AttOthMusFreq AttMostRecent AttOnline AttWhere AttWhy AttWhyOT	Cael gwybodaeth ynglŷn â pha mor aml y mae ymatebwyr yn mynd i wahanol fathau o berfformiadau neu ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol, yn ogystal â ble a pham. Gall Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ddefnyddio'r canlyniadau i fonitro tueddiadau. Bydd hyn yn eu helpu i hyrwyddo diddordeb mewn digwyddiadau celfyddydol.	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
CCC - Cyfranogi	ArtsActiv MusDramDanActiv MusDramDanActivOT ActivFreqIntro MusicActivFreq MusicActivFreqW DramActivFreq DramActivFreqW DanceActivFreq DanceActivFreqW CircActivFreq CircActivFreqW FilmActivFreq FilmActivFreqW VisArtActivFreq VisArtActivFreqW LitActivFreq LitActivFreqW ActivMostRecent ArtsActivOnline ArtsActivWhere ArtsActivWhy ArtsActivOT	Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys i ganfod pa ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol y mae pobl yng Nghymru yn cymryd rhan weithredol ynddynt (yn hytrach na bod yn bresennol fel aelodau'r gynulleidfa). Mae CCC yn awyddus i ddeall lefelau cyfranogi a'r mathau o bobl sy'n cymryd rhan mewn gwahanol fathau o ddigwyddiadau. (20-21)	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
CCC – Digwyddiadau celfyddydol yn y Gymraeg	ArtsWL ArtsWLFreq	Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn deall pa mor aml y mae pobl yn mynd i ddigwyddiadau diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg, fel agwedd bwysig ar y defnydd o'r Gymraeg ym mywydau beunyddiol pobl. (20-21)	
CCC – Rhwystrau	ArtsBarriers ArtsBarriersOT	Drwy gael gwybodaeth am y mathau o bethau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol, gall CCC chwilio am ffyrdd o annog mwy o bobl i gymryd rhan. (20-21)	
CCC – Agweddau tuag at y celfyddydau a diwylliant	ArtsFund ArtsLearn ArtsLive ArtsConf ArtsValue ArtsSkills ArtsQoL ArtsMoney ArtsComfortable ArtsTime ArtsInterest ArtsNew ArtsNear ArtsEnjoy ArtsChildren	Mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud ag agweddau tuag at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol, gan gynnwys costau a chyllid, canlyniadau a phrofiadau personol a chanfyddiadau ynglŷn â chymryd rhan. Bydd CCC yn defnyddio'r canlyniadau i lywio mesurau i hyrwyddo'r gweithgareddau hyn a helpu pobl i gymryd rhan ynddynt. (20-21)	

Yr holiadur dros y ffôn			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Ailgysylltu (Craidd)	Recontact2	Cadarnhau a yw ymatebwyr yn fodlon i rywun gysylltu â nhw eto yn y dyfodol. Yna, gellir eu gwahodd i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil dilynol.	
Ailgysylltu (Craidd): Llinellau cymorth	RespInfo	Caiff rhestr o linellau cymorth a gwybodaeth ddefnyddiol arall sy'n berthnasol i'r pynciau y mae'r arolwg yn ymdrin â nhw ei rhannu ar y pwynt hwn, naill ai drwy gyfeiriad gwe neu dros y ffôn. Anfonir taflen drwy'r post at unrhyw un nad yw'n defnyddio'r rhyngrwyd ar ôl cwblhau'r arolwg.	
Gwybodaeth wirio i gyfwelwyr (Craidd)	Vouch1 EmailV VouchPostal ReCall2 GiveTel2 PhSTD PhNum EmailV1 Email Thanks HowCh	Gellid ailgysylltu ag ymatebwyr dros y ffôn os bydd problem sylweddol yn codi gyda'r data, er mwyn cael adborth ar y cyfwelydd, ac os nad oedd eu cyfeiriad e-bost yn gywir er mwyn iddynt gael y daleb gymell. Mae ReCall2 yn cadarnhau eu bod yn fodlon i rywun gysylltu â nhw eto at y diben hwn. Mae'r cwestiynau sy'n weddill wedi'u cynnwys i gael manylion cyswllt er mwyn gallu defnyddio manylion yr ymatebydd ar gyfer ymchwil bellach, rhoi adborth, anfon taleb o ddiolch, a rhannu canlyniadau'r arolwg os dymunir. Cynigir e-daleb fel mater o drefn. Os nad oes gan ymatebydd gyfeiriad e-bost, cynigir taleb bapur.	

Holiadur ar-lein			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Dechrau'r arolwg ar-lein	AccessCode IntroOnline InfoCheck Agelf	Rydym yn gofyn i ymatebwyr fewnbynnu eu Cod Mynediad Unigryw, eu henw a'u dyddiad geni (neu eu hoedran) fel y gallwn gadarnhau mai'r person cywir sy'n cwblhau'r arolwg ar-lein drwy gymharu ei ymatebion i'r cwestiynau hyn â'r rhai yn yr arolwg dros y ffôn.	
Gwasanaethau a chyfleusterau lleol	LocServAv	Mae'r gallu i gael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau yn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; gofynnir y cwestiwn hwn er mwyn adrodd yn erbyn y dangosydd hwn.	
Newid yn yr hinsawdd - Ymddygiadau	EnvBehs EnvBehsCar EnvBehsCarOT EnvBehsPlane EnvBehsPlaneOT EnvBehsMeat EnvBehsMeatOT EnvBehsDairy EnvBehsDairyOT EnvBehsEnergy EnvBehsEnergyOT EnvBehsBuy EnvBehsBuyOT	Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd y cwestiynau hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall pa gamau y mae unigolion eisoes yn eu cymryd a allai helpu gyda'r broblem.	

Holiadur ar-lein			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Atgyweirio ac aildddefnyddio	IntroRepair RecycSold RecycBgt RecycHHClo RecycHHFrn	Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer lansio'r Strategaeth Economi Gylchol newydd eleni, gyda'r nod o sicrhau Cymru carbon isel, ddi-wastraff nad yw'n defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys ceisio lleihau gwastraff i'r eithaf a chadw'r un adnoddau mor hir â phosibl. Gan fod y cwestiynau hyn wedi cael eu gofyn o'r blaen, byddant hefyd yn cael eu defnyddio i fesur sut mae lefelau'r ymddygiadau hyn wedi newid dros amser. Bydd hyn yn helpu i lywio penderfyniadau polisi sy'n anelu at sicrhau Cymru ddiwasttraff erbyn 2050.	
Gwirfoddoli	IntroVol VolType VolTypeOT VolTime	Cael gwybod a yw pobl yn gwirfoddoli. Mae gwirfoddoli yn elfen o lesiant a chaiff y cwestiynau eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	

Holiadur ar-lein			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick- Caeredin (WEMWBS)	IntroWEMWBS WwOpt WwUseful WwRelaxed WwIntPeople WwEnergy WwProbs WwThink WwGood WwClose WwConfident WwDecisive WwLoved WwIntThings WwCheerful	Mae'r cwestiynau hyn yn mesur llesiant meddyliol, sy'n effeithio ar lawer o agweddau ar fywyd. Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (megis GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac awdurdodau lleol), yn defnyddio'r canlyniadau i nodi materion iechyd y cyhoedd a gweithredu arnynt.	

Cosbi plant yn gorfforol	IntroPhyPun SmackAgree SmackChanAgree SmackChanDisagree IntroPhyPun2 SmackHarmSelf SmackHarmAnoth SmackOOC SmackPun	Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd ar smacio plant. Nod y cwestiynau hyn yw cael gwybodaeth sylfaenol am farn pobl cyn i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno.	<u>Os ydych yn cynnal fersiwn o'r arolwg ar-lein dros y ffôn:</u> Mae'n bwysig nodi mai cwestiynau sy'n gofyn am farn yw'r rhain. Efallai y byddwch yn gyfarwydd â nhw o arolygon megis yr arolwg o ffordd o fyw cyffredinol (GLF) ac arolwg o safbwyntiau (OPN). Ymatebwyr sy'n penderfynu beth mae pob un o'r datganiadau yn ei olygu iddynt, ac felly a ydynt yn cytuno ai peidio. Nid ydym yn ceisio eu hannog i roi ymateb penodol. Mae'n bwysig iawn nad yw'r cyfwelydd yn ceisio dylanwadu ar yr ymatebydd mewn unrhyw ffordd. Peidiwch ag awgrymu ateb. Ychydig o bwyntiau cyffredinol ynglŷn â chwestiynau sy'n gofyn am farn: • Os bydd yr ymatebydd yn cael anhawster ateb cwestiynau, a bod hyn yn achosi embaras neu ofid, bydd angen i chi bwysleisio nad oes ateb cywir nag anghywir, a'ch bod yn awyddus i glywed beth mae'n ei wybod neu'i feddwl. Gallwch bob amser ymdrin â hyn drwy gydymdeimlo a dweud y byddech chithau hefyd yn cael y cwestiynau'n anodd.
---------------------------------	--	--	--

Holiadur ar-lein			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
			Efallai y bydd ymatebydd yn gofyn i chi beth yw'r ateb cywir i gwestiwn sy'n gofyn am roi barn. Bydd angen i chi ymdrin â'r sefyllfa hon yn ofalus iawn oherwydd ni ddylech byth roi ateb yn ystod y cyfweiliad. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud nad yw'ch barn yn berthnasol ac mai barn yr ymatebydd sy'n bwysig. Os bydd yr ymatebydd yn ymateb i gwestiwn sy'n gofyn am roi barn drwy ofyn "beth rydych yn ei feddwl?", ni ddylech byth geisio esbonio beth mae'n ei feddwl. Os nad yw'r ymatebydd yn deall y cwestiwn, dylech ddarllen y cwestiwn unwaith yn rhagor, yn union fel y mae wedi'i eirio. Os na all yr ymatebydd ateb y cwestiwn o hyd, ar ôl i chi ddweud y cwestiwn eto, dylech nodi "ddim yn gwybod" a symud ymlaen. Ni ddylid ailadrodd y cwestiwn fwy nag unwaith o dan unrhyw amgylchiadau; ac ni ddylid byth addasu'r geiriad ychwaith.

Holiadur ar-lein			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Gamblo	IntroGamb GambAct1 GambFreq GambAfford GambLarger GambAgain GambBorrow GambProb GambEffects GambOthers GambFinProb GambGuilt	Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys i roi tystiolaeth gadarn ynghylch lefelau problem gamblo yng Nghymru. Daw'r cwestiynau o Arolwg Iechyd Lloegr / Arolwg Iechyd yr Alban er mwyn cael cymharu canlyniadau i ryw raddau rhwng y gwledydd. Bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i benderfyniadau ynglŷn â sut i fynd i'r afael ag effeithiau problem gamblo yng Nghymru.	Yn sgil diwygiadau i Ddeddf Gamblo'r DU, gan gynnwys newid yr oedran ifanc i chwarae yn y Loteri Genedlaethol o 16 i 18 oed, ni ofynnir i ymatebwyr o dan 18 oed am y modiwl 'Gamblo'.
Dinasyddiaeth fyd-eang	IntroGlobCit GlobalMoney GlobalVol GlobalCampaign GlobalBuy	Mae'r cwestiynau yn y modiwl hwn wedi'u cynnwys i gofnodi cynnydd yn erbyn un o ddangosyddion cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent wedi'u cynllunio i fesur a yw pobl yng Nghymru yn ddinasyddion byd-eang gweithredol (hynny yw, yn ymgymryd â'r math o bethau a grybwyllir yn y cwestiynau). Caiff y canlyniadau eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, sefydliadau yn y trydydd sector / elusennau a chyrrff cyhoeddus eraill i benderfynu a oes angen cymryd camau i annog pobl i ymgymryd â mwy o'r mathau hyn o weithgareddau.	

Holiadur ar-lein			
Adran	Enw'r newidyn	Rheswm dros y cwestiwn/cwestiynau	Nodiadau ychwanegol i gyfwelwyr
Diwedd yr arolwg ar-lein	OnTVoucher	Gall ymatebwyr ddewis a hoffent gael eu taleb drwy e-bost neu drwy'r post.	Bydd ymatebwyr sy'n cwblhau'r fersiwn dros y ffôn o'r arolwg ar-lein yn cael eu taleb drwy'r post, a hynny am nad ydym yn casglu eu cyfeiriad e-bost yn ystod y cyfweiliad dros y ffôn; hefyd, caiff y fersiwn dros y ffôn ei chwblhau fel arfer am nad yw'r ymatebydd yn defnyddio'r rhyngwrwyd ac na fyddai wedi llwyddo i gael ei daleb drwy e-bost.
Adborth	Feedback1 Feedback2	Cyfle i roi adborth ar eu barn am yr arolwg ar-lein. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio er mwyn helpu i wella'r arolwg.	Nid yw'r cwestiynau hyn yn orfodol.